| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **NEWIDIADAU I'R GYLLIDEB** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DELIO GYDA CHANLYNIADAU'R CYHOEDDIADAU A'R PENDERFYNIADAU DIWEDDAR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** |
| **GWEITHREDU:** | **CYMERADWYO'R TROSGLWYDDIADAU** |

Yn sgil datblygiadau diweddar, mae angen gwneud rhai newidiadau i gyllideb 2011-12 sy'n mynd y tu draw i bwerau trosglwyddo arian y Pwyllgor Gwaith:-

**Lwfansau Aelodau** Byddai'r adroddiad ar wahân ar lwfansau aelodau, os derbynnir yr argymhelliad, yn golygu arbediad o £170k mewn blwyddyn lawn, gan gynnwys gorbenion.

**Rheolwr-gyfarwyddwr/Prif Weithredwr** Os cadarnheir yr argymhelliad ar wahân gan y Pwyllgor Penodi am gyflog o £110k, bydd arbediad o £130k yn erbyn cyllideb 2011-12 a sefydlwyd ar sail parhau gyda chontract y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim blaenorol. Mae hyn yn gadael darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden.

**Bwrdd Adfer** LlCC dalodd gostau'r Bwrdd Adfer a thynnwyd swm o'r Grant Cytundeb Canlyniadau. Nid oedd LlCC wedi sôn am ffigwr ar gyfer 2011-12, ond yn absenoldeb ffigwr, tynnwyd swm o £65k yn y gyllideb, yr un modd â 2010-12. Nid oes angen y ddarpariaeth hon mwyach.

Mae'r tri newid uchod yn arwain at arbediad o £365k ar y gyllideb.

**Comisiynwyr** Mae LlCC wedi penodi comisiynwyr. Yr un modd â'r Bwrdd Adfer, LlCC fydd yn talu'r costau gan dynnu swm o'r Grant Cytundeb Canlyniadau a amcangyfrifir yn £270k. Mae'r awdurdod wedi cael cyfarwyddyd i ddarparu cefnogaeth ac mae cefnogaeth weinyddol yn cael ei threfnu ac amcangyfrifir y bydd yn costio £35k y flwyddyn.

Gellir cyllido costau ychwanegol y comisiynwyr o'r arbedion a amlinellir gan adael balans o £60k. Rwy'n cynghori y dylid rhoddi'r swm hwn o'r neilltu ar gyfer costau eraill yn ymwneud â'r adferiad ac y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb am wario'r arian hwn i'r swyddogaeth weithredol.

Argymhellaf y dylai'r Cyngor Sir gymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol isod i benawdau cyllideb 2011-12 i adlewyrchu'r newidiadau hyn:-

| | | **Cynnydd/(Lleihad) Cyllideb £000** |
|---|---|---|
| Grant Cytundeb Canlyniadau | [270 – 65] | 205 |
| Lwfansau Aelodau | | (170) |
| Rheolwr/gyfarwyddwr/Prif Weithredwr | [35 – 130] | (95) |
| Cynllun Adfer | | 60 |

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **19 EBRILL 2011**